Cynorthwyydd Gweithredol (Siarad Cymraeg) (Cyfnod Mamolaeth)
Gweithio i ColegauCymru

Contract

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig contract cyflogaeth llawn amser (ystyrir rhannu swydd), tymor penodol (tan 30 Medi 2022), yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o dri mis.

Graddfa Gyflog

Telir cyflog rhwng £19,467 - £21,154 y flwyddyn i'r ymgeisydd llwyddiannus, codiad cyflog yn yr arfaeth, pro rata, yn ddibynnol ar brofiad.

Gwyliau

Y gwyliau blynyddol ar gyfer y rôl hon yw 28 diwrnod, pro rata. Yn ogystal â'r hawl bersonol hon, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hawl i adael ar 8 gwyliau cyhoeddus ynghyd â diwrnodau ychwanegol.

Oriau Gwaith

Yr oriau llawn amser dan gontract yw 37 awr yr wythnos ac eithrio egwyliau prydau bwyd bob dydd. Bydd yr oriau gwaith yn gymaint i ddiwallu anghenion swydd y Cynorthwyydd Gweithredol.

Weithiau, gellir disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu cyfarfodydd gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae'r sefydliad yn gweithredu polisi TOIL (time off in lieu).

Pensiwn

Bydd ColegauCymru yn gwneud cyfraniad misol i gynllun pensiwn yr ymgeisydd llwyddiannus. Os nad yw'r unigolyn yn cyfrannu tuag at gynllun pensiwn ar hyn o bryd, bydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig mewn cynllun pensiwn gweithle.

Cyfnod Rhybudd

Mae angen mis o rybudd.

Cyfnod Prawf

Mae cyfnod prawf o dri mis yn berthnasol i'r rôl hon.

Lleoliad

Bydd y rôl yn gyfuniad o weithio gartref a gwaith swyddfa, wedi'i leoli yn Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB. Mae parcio am ddim yn ein hadeilad.

Gall y swydd gynnwys rhywfaint o deithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, sy'n gofyn am aros dros nos.

Dylai ymgeiswyr nodi, oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru mewn ymateb i bandemig COVID19, ar hyn o bryd mae'n ofynnol gweithio gartref lle bo hynny'n bosibl.

Eich Gwybodaeth

Os dewiswch wneud cais am rôl gyda ColegauCymru, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth amdanoch chi. Efallai y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth amdanoch chi gan drydydd parti, fel eich canolwyr a, lle bo hynny'n berthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i bennu eich addasrwydd ar gyfer y rôl hon ac, os ydych chi'n llwyddiannus, i reoli ein contract cyflogaeth gyda chi. Ymdrinnir â'ch gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae mwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol i'w gweld yn ein Polisi Preifatrwydd.